

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod 12 Tachwedd 2019 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 6.30 yn yr hwyr.

PRESENNOL

Daniel Williams	Iwan Huws
Casi Roberts	Eifion Williams
Llŷr Evans	Cynog Prys
Lliwen Griffith-Williams	Gruff John
Nerys John	Cynghorydd Sir - Gareth Griffiths

0.0	Trafod Adroddiad Blynyddol Llwybrau	CLERC
	<p>Cydnabuwyd bod Uned Llwybrau wedi derbyn copi o'r adroddiad blynyddol fel maent yn ei dderbyn yn flynyddol ond penderfynwyd bod y clerc yn anfon at Bennaeth Cefn Gwlad a'r uned Llwybrau i ofyn am weithred i'r llwybrau sydd wedi eu rhifo.</p> <p>Adroddodd Y Cynghorydd Sir ei fod wedi bod mewn cyfarfod diweddar le'r oedd gwaith yr uned Cefn Gwlad yn cael ei drafod ynghyd a diffyg adnoddau. Roedd y swyddogion yn cydnabod bod Cyngor Cymuned y Felinheli yn weithgar iawn.</p> <p>Dywedodd bod Adran Priffyrdd wedi derbyn cymorth ariannol oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith sydd wedi ei glustnodi ers sawl blwyddyn. Dywedodd dylai'r Cyngor Cymuned wneud yn sicr ei fod yn cyfeirio at hyn mewn gohebiaeth i Gyngor Gwynedd.</p> <p>Mae angen sicrhau bod gohebiaeth a chopi o'r adroddiad yn Mynd at Wyn Williams a Dylan Owen o Gefnffyrdd. Mae angen hefyd i anfon at Gyngor Cymuned Llanddeiniolen a gwneud cais am ddyddiad i gyfarfod.</p> <p>Mae pryder ynglŷn â sbwriel sydd ar y tir ac yn yr afon tu gefn i Cerrig yr Afon. Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams bod cymorth i'w gael i glirio'r afon gan Daniel Griffiths swyddog o Gyngor Gwynedd ond bod angen siarad â'r perchennog tir yn gyntaf. Roedd y Cynghorydd Sir am fynd i gyflwyno hyn i'r perchennog. Mae angen stanciau newydd i ffens Cerrig yr Afon.</p> <p>Y Cynghorydd Eifion Williams am gysylltu â contractwr am bris, y pris hefyd i gynnwys gwaith ar y ffens sydd ger yr afon i adael mynediad i anifeiliaid gael dŵr. Mae Llwybr Cerrig yr Afon ger y Wern yn derbyn sylw gan y contractwr torri gwair ond nid yw'r manylder hwn ar y contract torri gwaith -</p> <p>Y Clerc i sicrhau bod y lleoliad hwn yn cael ei nodi ar y contract. Mae camfeydd 23b angen sylw oherwydd eu bod yn llithrig, y Clerc i gysylltu â Gerallt Jones Cyngor Gwynedd.</p> <p>Y Clerc hefyd i gysylltu â Gerallt Jones ynglŷn â chyflwr Llwybr 16 sydd i weld yn wlyb fel bod yna beipen wedi torri.</p>	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	<p>Ystyriwyd cais Cyngor Gwynedd i wneud Llwybr Rowen yn Llwybr Cyhoeddus - dim gwrthwynebiad. Ystyriwyd y graffiti sydd ar wal eiddo ar Lwybr cefnau tai.</p> <p>Y Clerc i gysylltu â'r perchennog os bydd rhif ffôn ag enw ar gael.</p>	
1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
	Er bod y Cyngor wedi cychwyn am 6.30 i drafod Llwybrau, agorodd y Cadeirydd y cyfarfod yn swyddogol a chroesawu'r cynghorwyr i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Gynghorwyr Aled Emyr a Mei Gwilym.	
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
2.1	Diolchodd y Cynghorydd Sir i bawb oedd yn gysylltiedig â chyflwyno a threfnu'r gwasanaeth Sul y Cofio.	
2.2	Ymhellach a'r cais i gyflwyno estyniad i'r 30 m.y.a. ochr Bangor mae damwain difrifol wedi bod ac mae'r heddlu yn archwilio'r digwyddiad. Mae yn dal i bwysu i gael newid y cyfyngiad.	
2.3	Nodyn i atgoffa bod Ger y Nant byth wedi derbyn y bin halen - y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.	G.G
2.4	Mae graffiti wedi ymddangos yn y pentref - roedd rhai swasticas wedi eu paentio ar y gefnffordd ond ymatebwyd yn sydyn i rain gan yr heddlu. Ymatebwyd Gwynedd i rai perthnasol i'r Sir.	
2.5	Trafodwyd safle Ferodo, dywedodd y Cynghorydd Sir bod angen gwneud rhywbeth a'r safle. Mae cwynion ynglŷn â chyflwr y lleoliad, mae tanau wedi eu cynna yno ac yn y blaen. Dywedodd nid oedd ganddo wrthwynebiad i'r perwyl o gael gwaith i'r ardal ond mae ychwanegiad o gyflwyno tai moethus ar lan y Fenai yn achosi problem o ran creu ail gartrefi. Nid yw'r tir yma wedi ei glustnodi ar gyfer datblygiad tai o fewn y Cynllun Datblygiad ar y cyd rhwng Gwynedd a Môn. Pethau eraill reit positif ar ddechrau'r drafodaeth.	
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	Cadarnhawyd gwariant a derbyn adroddiad ar gyfer Mis Hydref 2019, derbyniwyd yn gywir gan y Cyngor.	
4.2	Dywedodd y swyddog Ariannol bydd yn paratoi'r gyllideb erbyn mis nesaf a byddai angen meddwl am brosiectau sydd angen eu hariannu. Fel siampl bydd angen rhoi cost o ail godi safle bws Aberpwl.	
4.3	Ceisiadau am gymorth ariannol angen ei hysbysebu gyda dyddiad cau 31 Ionawr 2020. Cynghorydd Nerys John i'w roi ar Facebook a'r Cynghorydd Casi Roberts i'w roi ar y wefan.	NJ/CR
4.4	Cafwyd adroddiad llafar gan Gadeirydd yr Is-bwyllgor Cyflogaeth. Dywedodd na fydd ystyriaeth i godiad cyflog eleni. Bydd gwerthusiad ar gyfer y ddau Glerc diwedd y flwyddyn.	
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Hydref fel rhai cywir.	
6.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
6.1	C19/0947/20/LL - newidiadau i'r dyluniad lolfa haul ynghyd a chreu balcony uwjben - Hillside 5 Bush Road Y Felinheli LL56 4UJ - DIM GWRTHWYNEBIAD	CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio
6.2	Ymgynghoriad o flaen cais Cynllunio ar gyfer Gwêl y Fenai (Adeilad Ferodo a Phlas Bereton). - dim sylwadau nes derbyn cais.	
7.0	PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANAU	
7.1	Graffiti wedi ymddangos ar safle Bws cerrig yr Afon - scrapper wedi bod yn ddigonol i'w dynnu i ffwrdd.	
7.2	Postiau haearn cysgodfan Aberpwll dwedi eu derbyn ar gost o £324. Yr anfoneb yn y post. Y Cyngor yn fodlon ar y gwariant.	
7.3	Disgwyl pris ar gyfer Cysgodfan ger Cwrt Menai, Y Cynghorydd Daniel Williams I gael pris ar gyfer steil Cantilever.	DW
7.4	Y Clerc I wneud ymholiadau pellach a'r Swyddog Goleuadau Stryd ar gyfer Golau Cysgodfan Bws Cerrig yr Afon. Mae golau yn y Gysgodfan Bws arall angen sylw, y Cynghorydd Daniel Williams yn gweithredu ar hwn.	CLERC/DW
8.0	LLWYBRAU A LON LAS	
8.1	Trafodwyd materion Llwybrau yn eitem 0.0	
8.2	Tir Hen Reilffordd - trafodwyd cais Cyngor Gwynedd i ganiatáu defnydd o les y Cyngor Cymuned gan berson oedd am reoli'r safle rhag gam ddefnydd. Penderfynwyd edrych ar y les i sicrhau lleoliad y les. Y Clerc I wneud ymholiadau a'r cyfreithiwr.	CLERC
9.0	MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA	
9.1	Dywedodd y Clerc Ariannol nad oedd Cyngor Gwynedd yn paratoi biniau gwastraff gardd fasnachol. Trafodwyd y biniau compost a bod defnyddiau amhriodol yn cael ei roi ynddynt fel plastig, cerrig, a.y.b. Mae'r Cynghorydd Casi Roberts wedi paratoi arwydd are u cyfer. Edrych eto ar y biniau ar ddechrau'r gwanwyn i weld os yw'r cynnwys wedi lleihau drwy weithred naturiol.	CLERC
9.2	Mae amodau a thermâu newydd Claddedigaethau angen eu gosod ar y bwrdd hysbysu ond mae angen sylw. Y Cynghorydd Daniel Williams am edrych arno.	DW
10.0	PROSIECTAU	
10.1	Dim llwyddiant gyda chais grant Tir Lenwi, roedd dim digon o dystiolaeth bod y Cyngor wedi ymgynghori a'r gymuned. Y Cynghorydd Eiliw Williams wedi gwneud cais i Comic Relief ac maent hwy wedi anfon yn ôl angen fwy o wybodaeth.	EW
10.2	Llythyr Cyngor Gwynedd ar Feysydd Chwarae'r Wern a Glan y Môr. Trafodwyd cais y Cyngor Sir ar gyfer cymryd cyfrifoldeb ar sail les ar gyfer y meysydd chwarae. Penderfynwyd trefnu cyfarfod a hwynt i drafod gwahanol fodelau sydd ar gael. Y Clerc i anfon ymateb.	CLERC
10.3	Dywedodd y Cynghorydd Casi Roberts bod Jonathan Neal Cyngor Gwynedd wedi gofyn a byddai'r Cyngor ddiddordeb i	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	fod yn Hwb ar gyfer casglu sbwriel. Wrth wneud hyn byddai mwy o offer i gael. Roedd Y Cynghorydd Casi Roberts yn barod I Gydlynu'r hwn. Diolchwyd i'r Cynghorydd.	
11.0	NEUADD GOFFA A CHLOC	
11.1	Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Daniel Williams.	
11.2	Mae gwaith Rheoliadau adeiladu wedi ei derbyn ac mae'r Pensaer nawr wedi anfon am dendrau gan dri adeiladwr.	DW
11.3	Ni does asbestos i weld o dan lawr y Neuadd.	DW
11.4	Mae gwaith trydan wedi ei orffen ac felly gall gwaith ar gyfer CCTV gael ei gwblhau.	DW
11.5	Mae anfonebau gan Owen & Palmer wedi ei derbyn - Y Clercod a'r Cynghorydd Daniel Williams i sicrhau bod yr anfonebau yn gyfredol a'u bod angen eu talu ac nad ydynt wedi eu talu eisoes.	
11.6	Bydd Sioe Ffasiwn yn y Neuadd ar y 15. Os yn bosib byddai cael help i ddod a chadeiriau i lawr o'r llofft ar gyfer y digwyddiad o held i'r gofalwr. Mae angen sicrhau bod y gwres yn cael ei adael ymlaen ar gyfer y digwyddiadau.	DW
	Diolchodd y Cynghorydd Daniel William I'r canlynol am eu gwaith yn ystod gwasanaeth Sul y Cofio. Y Parch Geoffrey Hughes, Lliwen Griffith-Williams, Mei Gwilym, Nerys John, Eifion Williams, Gruff John, Iestyn Harris a Gareth Griffiths. Diolchodd Nerys John i Daniel Williams.	
12.0	GWEFAN	
	Gwaith yn parhau i ddiweddarau'r wefan.	CLERC
13.0	CYNLLUN ATAL LLIFOGYDD	
	Diolchodd y Cyngor i Gyngor Gwynedd am y Cylchgrawn.	
	Trafodwyd derbyn gwybodaeth ar gyfer Llanw uchel a sut mae gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i'r cyhoedd. Cafwyd gwybodaeth bod modd i dderbyn gwybodaeth ynglŷn â glaw trwm a'r tebygolrwydd o lifogydd oddi wrth yr afonydd. Cynghorydd Daniel Williams a Chynghorydd Gruff John i symud ymlaen a hyn.	DW/GJ
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:30	
Llofnod:		Dyddiad: